

# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER  
19 CHWEFROR 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

## YN BRESENNOL

Cyng I Roberts JP, N Highley, S Parry, E Huws, R G Parry, A Michael, I Rowlands, K Humphreys, C Ll Thomas

## YMDDIHEURIADAU

Cyng D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.

**DATGAN DIDDORDEB** - Dim

## DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 8 Ionawr 2014

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 8 Ionawr 2014, Cyng N Highley yn cynnig a Cyng A Michael yn eilio.

## MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwran Ffarm - Pen Rhiw** - Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar y safle pan fydd y tywydd wedi gwella. Bydd y Clerc yn trefnu i'r Cyngor Sir cysylltu a Cyng A Michael

**Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr** - Dywedodd y Clerc bod grantiau rhwng £3000 - £10000 ar gael gan y "Heritage lottery Fund" Bydd syniadau y Cyngor (twtio y gofeb, golau, railings newydd ac ymlaen) ac cael eu ystyried yn y cyfarfod nesaf.

**Twnneli Helyg** - Penderfynwyd symud ymlaen gyda un twnnel helyg. Bydd y Clerc yn paratoi cais, hefyd cais am grant.

**Gwydr newydd** - Madog Farm/Refail Newydd - Mae'r Cyngor Sir wedi gosod gwydr newydd.

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**- Dywedodd y Cadeirydd bod y lorwerth Arms ar werth. Mae preswylwyr yn bryderus y gallai'r adeilad gael ei ddymchwel. Penderfynwyd ail ystyried y mater yn y cyfarfod nesaf.

Gofynwyd i'r Clerc ail hysbysebu y sedd wag yn Llanbeulan. Hefyd, dywedodd y Cadeirydd bod arwyddion "dim cwn" wedi cael eu gosod yn y maes chwarae.

## GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON

### Cynllunio

16C102A/SCO Cais am farn sgopio ar gyfer codi adeilad i gadw ieir yn Gernant, Bryngwran - dim sylwadau.

### Gwasanaethau Tai

Y Gronfa ar gyfer gwella amgylchedd a'r gymuned - Darllenwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn dweud bod arian ar gael i gwella yr amgylchedd. 'Roedd y Cyngor wedi meddwl trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod y mater ymhellach. Yn anffodus, nid oedd dim diddordeb gan y cyhoedd

LLOFNOD

(Cadeirydd) 12 Mawrth 2014

## **Datblygu Cynaliadwy**

Ymgynghoriad: Adeilad Niwclear Newydd Wylfa (Cyfarfodydd Cyhoeddus)  
gwybodaeth yn unig

### **Dirprwy Prif Weithredwraig**

Cod Ymddygiad - Darllenwyd llythyr gan y Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Ynys Mon yn dweud bod y Cyngor wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad y blwyddyn diwethaf. Mae'r pwyllgor yn siomedig iawn i nodi nad oedd Cyngor Cymuned Bryngwran heb gymryd y tri lle oedd yn cael eu cynnig. "Byddwch yn gwybod ei bod o'r pwysigrwydd mwyaf bod cynghorau Cymuned, sydd hefyd yn dod o dan yr un Côt Ymddygiad â chynghorwyr sir ac yn cytuno i lynu wrtho, yn mynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddigonol o'u hymrwymiaadau; yn arbennig pan ddaw i gydymffurfio gyda datganiadau / cyfrannu mewn materion lle mae ganddynt diddordeb personol / rhagfarnol"

Yn 2014, bydd y Pwyllgor Safonau yn hytrach yn cynnig hyfforddiant i glercod Cyngor Cymuned / Tref mewn perthynas â rhai meysydd allweddol o'r Côt Ymddygiad. Y bwriad yw canolbwyntio ar barchu ac ystyriaeth ac ar diddordebau, gyda'r disgwyl y bydd y clercod wedyn yn rhannu'r hyfforddiant gyda'u haelodau ac y byddant mewn gwell sefyllfa i roi cyngor ynglŷn â disgwyliadau'r Côt mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned.

## **GOHEBIAETH YCHWANEGOL**

**Menter Mon Blodeuo Mon** - Ganmlwyddiant Cychwyn y Rhyfel Byd. Mae Cyngor Ynys Mon wedi penderfynu anrhydeddu a choffau'r digwyddiad hwn trwy "Ymgyrch Blodau'r Dyfodol" Penderfynwyd gofyn i'r Ysgol os oes ganddynt diddordeb yn y mater

**N Evans - Plaque Eisteddfod** Darllenwyd llythyr gan Mr Evans yn gofyn os oes modd ail-osod y Garreg ddefnyddiwyd ar gyfer yr Eisteddfod a rhoi 'plaque' arni hi i gofnodi Eisteddfod Mon - Bryngwran a'r Cylch 201 a gosod y garreg rhywle o gwmpas yr ysgol/cae chwarae? Bydd y mater yn cael ei drefnu yn cyfarfod nesaf llywodraethwyr yr Ysgol

## **MATERION ARIANNOL**

### **Penderfynwyd talu y canlynol:**

Cyngor Ynys Mon - Lamp Capel Gwyn £309

Aelodaeth Un Llais Cymru £107.00

Costau y Cadeirydd £47.42

Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng I Rowlands yn eilio

## **MATERION ERAILL**

Clwb Cinio Bryngwran - dywedodd Cyng A Michael bod rhai pensïynwyr yn y pentref gyda diddordeb creu Clwb Cinio yn y pentref. Mae Age Concern yn fodlon helpu trefnu Clwb. Bydd Cyng Michael yn gwneud mwy o ymholiadau - niferau ac ymlaen.

Clwb Ieuenctid Bryngwran - dywedodd Cyng I Rowlands bod y Clwb Ieuenctid yn cynnal noson agored ar 25 Chwefror a gofynodd i pawb cefnogi y noson. Hefyd mae aelodau y Clwb wedi cynnig peintio y cysgodfannau bws.